OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 737 (Cy. 140)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# ANIFEILIAID, CYMRU
# BWYD, CYMRU
# HADAU, CYMRU
# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gwnaed - - - - 6pm ar 26 Mawrth 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r rheoliad hwn a rheoliad 8 i rym yn union cyn y diwrnod ymadael.

(3) Daw gweddill y Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2018 p. 16.

**Diwygio Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007**

**2.** Ym mharagraff 13 o Ran 2 o Atodlen 3 i Reoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007(**2**), hepgorer is-baragraff (2).

**Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 17, yn y geiriau o flaen is-baragraff (a)—

(a) yn lle "yw blwch 30, 31, 33 neu 34 o'r" rhodder "yw'r"; a

(b) yn lle "yn yr Undeb Ewropeaidd" rhodder "yng Nghymru".

(3) Yn rheoliad 38, yn lle "masnach rhwng" rhodder "mewnforion o".

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012**

**4.** Yn rheoliad 30 o Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**4**), yn lle'r geiriau "Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu fel yr Aelod-wladwriaeth at ddibenion" rhodder "Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu dros dro farchnata hadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion o ran yr egino lleiaf o dan amodau a bennir yn unol â".

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn lle'r diffiniad o "trydedd wlad" rhodder—

"ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw gwlad ac eithrio Aelod-wladwriaeth heblaw am—

(a) yn rheoliad 4, mae iddo'r ystyr a roddir i "third country" yn Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 ar reoli salmonela a chyfryngau milheintiol penodedig eraill a gludir mewn bwyd; a

(b) yn rheoliad 9 ac Atodlen 6, mae iddo'r ystyr a roddir yn Rheoliadau 2011."

(3) Yn rheoliad 4(1) hepgorer "genedlaethol", ac yn ei bennawd hepgorer "cenedlaethol".

(4) Yn y pennawd i Atodlen 1, hepgorer "cenedlaethol".

**Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018**

**6.** Yn rheoliad 5(6)(e) o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018(**6**), yn lle "Gomisiwn yr UE" rhodder "Weinidogion Cymru".

**Diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Cymru) 2019**

**7.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Cymru) 2019(**7**), yn y diffiniad o "sylwedd

(**2**) O.S. 2007/842 (Cy. 74), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2012/245 (Cy. 39), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2018/650 (Cy. 122).
(**6**) O.S. 2018/968 (Cy. 195), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**7**) O.S. 2019/569 (Cy. 125).

anawdurdodedig" ("*unauthorised substance*") yn lle "yn neddfwriaeth yr UE" rhodder "yng nghyfraith yr UE a ddargedwir".

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**8**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 8(a)—

(a) yn is-baragraff (i)—

(i) yn y diffiniad a fewnosodwyd o "awdurdod iechyd planhigion priodol y DU", ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(f) o ran Beilïaeth Guernsey, Pwyllgor yr Amgylchedd a Seilwaith Taleithiau Guernsey;

(g) o ran Beilïaeth Jersey, Adran yr Amgylchedd Taleithiau Jersey;

(h) o ran Ynys Manaw, Adran yr Amgylchedd, Bwyd ac Amaethyddiaeth Ynys Manaw;";

(ii) ar ôl y diffiniad a fewnosodwyd o "y rhestr o ddeunydd wedi ei heigio gwaharddedig", mewnosoder—

"ystyr "tiriogaeth ddibynnol ar y Goron" ("*CD territory*") yw Beilïaeth Guernsey, Beilïaeth Jersey neu Ynys Manaw;";

(b) yn lle is-baragraff (xxviii) rhodder—

"(xxviii) yn lle'r diffiniad o "trydedd wlad" rhodder—

"ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i Ynysoedd Prydain";".

(3) Yn lle rheoliad 15 rhodder—

"**15.** Yn erthygl 8—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle "gyflwynir i Gymru ym mhaciau teithiwr neu dramwywr arall" rhodder "ddygir i Gymru ym mhaciau teithiwr neu dramwywr arall sy'n dod o unrhyw drydedd wlad, ac eithrio'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir, neu i unrhyw ddeunydd esempt a ddygir i Gymru ym mhaciau teithiwr neu dramwywr arall sy'n dod o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir";

(ii) ym mharagraff (a), yn lle "(f)" rhodder "(h)";

(iii) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(ba) erthygl 6A(1);";

(iv) ar ôl is-baragraff (d), mewnosoder—

"(e) erthygl 12A;";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "yw" mewnosoder "unrhyw un neu ragor o'r deunydd perthnasol a ganlyn sy'n tarddu o drydedd wlad, ac eithrio'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir";

(ii) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

(**8**) O.S. 2019/674 (Cy. 130).

"(aa) ystyr "deunydd esempt" ("*exempt material*") yw unrhyw feintiau bach o ddeunydd perthnasol sy'n tarddu o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir, ac eithrio planhigion *Castanea* Mill. a fwriedir ar gyfer eu plannu, planhigion *Fraxinus* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu neu blanhigion, ac eithrio hadau, *Platanus* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu;""

(4) Yn rheoliad 27—

(a) ym mharagraff (a)—

(i) yn nhestun is-baragraff (e) a amnewidiwyd, yn lle "o Brydain Fawr" rhodder "o'r Deyrnas Unedig neu diriogaeth ddibynnol ar y Goron";

(ii) yn nhestun is-baragraff (f) a amnewidiwyd, ar ôl "Deyrnas Unedig" mewnosoder "neu diriogaeth ddibynnol ar y Goron";

(b) ym mharagraff (b)—

(i) yn nhestun is-baragraff (1B)(d) a fewnosodwyd, ar ôl "Deyrnas Unedig" mewnosoder "neu diriogaeth ddibynnol ar y Goron";

(ii) yn nhestun is-baragraff (1B)(e) a fewnosodwyd, ar ôl "Deyrnas Unedig" mewnosoder "neu diriogaeth ddibynnol ar y Goron";

(5) Yn rheoliad 28—

(a) ym mharagraff (b)—

(i) yn nhestun paragraff (1)(a) a amnewidiwyd, ar y diwedd mewnosoder "neu diriogaeth ddibynnol ar y Goron";

(ii) yn nhestun paragraff (1)(b) a amnewidiwyd, yn lle'r geiriau "o dan erthygl 12" rhodder "ar ran Gweinidogion Cymru o dan erthygl 12(1) neu gan neu ar ran awdurdod iechyd planhigion priodol arall y DU mewn dull cyfatebol;";

(iii) ar ôl testun paragraff (1)(b) a amnewidiwyd mewnosoder—

"(c) yn achos unrhyw ddeunydd perthnasol hysbysadwy sy'n tarddu o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir a ddygwyd i fan cyrraedd yn y Deyrnas Unedig, unrhyw ddeunydd perthnasol a bennir yn y rhestr o ddeunydd a reolir sy'n tarddu o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir ac yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru amdano yn unol ag erthygl 6(1), neu yr hysbyswyd awdurdod iechyd planhigion priodol y DU amdano yn unol â gofynion cyfatebol o dan y Gorchymyn Iechyd Planhigion perthnasol.";

(iv) yn nhestun paragraff (2)(a) a amnewidiwyd, ar y diwedd mewnosoder "neu diriogaeth ddibynnol ar y Goron";

(v) yn lle testun paragraff (2)(b) a amnewidiwyd rhodder—

"(b) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn y rhestr o ddeunydd a reolir mewn ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu mewn cysylltiad â'r ardal berthnasol yn y DU sy'n rhydd rhag plâu a ollyngir ar ran Gweinidogion Cymru o dan erthygl 12(1) neu gan neu ar ran awdurdod iechyd planhigion priodol arall y DU mewn dull cyfatebol;

(c) yn achos unrhyw ddeunydd perthnasol hysbysadwy sy'n tarddu o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir a ddygwyd i fan cyrraedd yn y Deyrnas Unedig, unrhyw ddeunydd perthnasol a bennir yn y rhestr o ddeunydd a reolir mewn ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu mewn cysylltiad â'r ardal berthnasol yn y DU sy'n rhydd rhag plâu—

(i) sy'n tarddu o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir; a

(ii) yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru amdano yn unol ag erthygl 6(1), neu yr hysbyswyd yr awdurdod iechyd planhigion priodol y DU amdano yn unol â gofynion cyfatebol o dan y Gorchymyn Iechyd Planhigion perthnasol.";

(vi) yn nhestun paragraff (3) a amnewidiwyd—

(aa) yn y geiriau cyn is-baragraff (a), ar ôl "diriogaethau eraill y DU" mewnosoder "neu diriogaeth ddibynnol ar y Goron";

(bb) ar y diwedd mewnosoder—

"(e) yn achos deunydd perthnasol y bwriedir iddo fynd i diriogaeth ddibynnol ar y Goron, unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir at ddibenion y paragraff hwn yn y ddeddfwriaeth iechyd planhigion sy'n gymwys yn y diriogaeth honno sy'n ddibynnol ar y Goron";

(b) ar y diwedd mewnosoder—

"(g) ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

"(11) Ym mharagraffau (1) a (2), mae i "Gorchymyn Iechyd Planhigion perthnasol" yr un ystyr ag sydd iddo yn Rhan 2 (gweler erthygl 3).".""

(6) Yn rheoliad 34, yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) ym mharagraff (4) yn lle is-baragraffau (a) a (b) rhodder—

"(a) ystyr "gweithredwr proffesiynol" ("*professional operator*") yw unrhyw berson sydd, wrth ei waith o fasnachu, rhedeg busnes neu broffesiwn, yn ymwneud â phlannu, bridio, cynhyrchu, mewnforio, marchnata neu ddosbarthu planhigion;

(aa) ystyr "manylion a bennir" ("*specified details*"), mewn perthynas â lot, yw ei tharddiad, ei thraddodwr, ei thraddodai, ei chyrchfan, ei rhif cyfresol neu wythnosol unigol neu rif swp unigol pasbort planhigion y DU, ei manylion adnabod a'i nifer;

(b) ystyr "planhigion penodedig *Xylella"* ("*Xylella specified plants*") yw planhigion a bennir ym mharagraff 13 o Ran E o'r rhestr o ddeunydd a reolir sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn, neu wedi eu symud drwy—

(i) ardal a ddarnodir o dan baragraff 5 o Atodlen 15 i'r Rheoliadau Iechyd Planhigion neu, o ran yr Alban, o dan ddarpariaethau cyfatebol yng Ngorchmynion yr Alban; neu

(ii) tiriogaeth ddibynnol ar y Goron lle y cadarnhawyd bod *Xylella fastidiosa* (Wells et al.) yn bresennol;""

(7) Yn rheoliad 42(b)(i), yn lle "y Deyrnas Unedig" rhodder "y Deyrnas Unedig, tiriogaeth ddibynnol ar y Goron,".

(8) Yn rheoliad 48(a), ar ôl is-baragraff (i) mewnosoder—

"(ia) hepgorer paragraffau (v) a (vi) o is-baragraff (a);".

(9) Yn rheoliad 51—

(a) ym mharagraff (d)(viii) yn lle "i'r Deyrnas Unedig" rhodder "i'r Deyrnas Unedig neu diriogaeth ddibynnol ar y Goron";

(b) ym mharagraff (e), yn lle'r geiriau ym mharagraff (i) rhodder "yn lle "yn rhywle arall yn yr Undeb Ewropeaidd" rhodder "mewn un o diriogaethau eraill y DU neu mewn tiriogaeth ddibynnol ar y Goron"";

(c) ym mharagraff (h), ar ôl testun paragraff 8(a) a fewnosodwyd, mewnosoder—

"(aa) mewn perthynas â deunydd lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau—

(i) a gynhyrchir yn Lloegr, yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Lloegr) 2017(**9**);

(ii) a gynhyrchir yng Nghymru, yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**10**);

(c) a gynhyrchir yn yr Alban, yn Rhan 2 o Atodlen 5 i Reoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Yr Alban) 2017(**11**);

(iv) a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon, yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Gogledd Iwerddon) 2017(**12**);".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

26 Mawrth 2019 ar 6pm

(**9**) O.S. 2017/595, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/131.
(**10**) O.S. 2017/691 (Cy. 163), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**11**) O.S.A. 2017/177, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**12**) Rh.St. 2017 Rhif 119, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, sy'n berthnasol i adnabod gwartheg; y fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol; archwilio am weddillion a therfynau uchaf gweddillion mewn cysylltiad ag anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid; enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy; marchnata hadau ac iechyd planhigion.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.